**Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan**

Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan,
Tw rym di ro rym di radl idl al.
O na bawn i yno fy hunan,
Tw rym di ro rym di radl idl al.
Dacw'r ty a dacw'r 'sgubor,
dacw ddrws y beudy'n agor.
Ffal di radl idl al, Ffal di radl idl al,
Tw rym di ro rym di radl idl al.

Dacw dderwen wych ganghennog,
Tw rym di ro rym di radl idl al.
Golwg arni sydd dra serchog,
Tw rym di ro rym di radl idl al.
Mi arhosaf dan ei chysgod
nes daw 'nghariad i 'nghyfarfod.
Ffal di radl idl al, Ffal di radl idl al,
Tw rym di ro rym di radl idl al.

Dacw'r delyn, dacw'r tannau,
Tw rym di ro rym di radl idl al.
Beth wyf well heb neb i'w chwarae?
Tw rym di ro rym di radl idl al.
Dacw'r feinwen hoenus fanwl,
Beth wyf well heb gael ei meddwl?
Ffal di radl idl al, Ffal di radl idl al,
Tw rym di ro rym di radl idl al.